

## **CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)**

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Ty Russell, Ffordd Churton, Y Rhyl LL18 3DP, Dydd Mercher, 4 Gorffennaf 2018 am 10.00 am.

### **YN BRESENNOL**

#### **Yn Cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych**

Cynghorwyr Ellie Chard, Tony Flynn, Tony Thomas ac Emrys Wynne

#### **Yn Cynrychioli Enwadau Crefyddol**

Parch. Brian Jones

#### **Yn cynrychioli Cymdeithasau'r Athrawon:**

Dim cynrychiolwyr yn bresennol

### **HEFYD YN BRESENNOL**

Ymgynghorydd Her ar gyfer GwE (PL) a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ)

### **PWYNT O RYBUDD - CWORWM**

Y cworwm ar gyfer CYSAG oedd trydedd rhan o'i aelodau gan gynnwys un o bob un o'r tri grŵp o gynrychiolwyr. Yn anffodus, nid oedd yna aelodau yn bresennol i gynrychioli sefydliadau athrawon ac felly roedd y cyfarfod heb gworwm. O ganlyniad roedd y sawl oedd yn bresennol yn ystyried pa un ai i barhau â'r cyfarfod yn anffurfiol ai peidio. Oherwydd mai dyma'r ail gyfarfod yn ddilynol o'r CYSAG heb gworwm ac na fyddai'n bosibl cadarnhau penderfyniadau blaenorol, ac oherwydd nad oedd yna unrhyw fusnes o bwys angen gwneud penderfyniad arno cyn y cyfarfod nesaf, cynigiwyd nad oedd y cyfarfod yn parhau a bod y busnes yn cael ei ohirio nes y cyfarfod nesaf o CYSAG a drefnwyd ar gyfer 12 Hydref 2018. **CYTUNWYD YN UNOL Â HYNNY.** Tra'n gwerthfawrogi ei fod yn gyfnod hynod o brysur i aelodau mynegwyd pryder mai ond un ymddiheuriad a dderbyniwyd gan Dominic Oakes, a phwysleisiodd yr aelodau ei bod yn bwysig bod pob aelod yn cyflwyno ymddiheuriad ymlaen llaw os nad oeddent yn gallu mynychu cyfarfod fel y gellir gwneud trefniadau amgen os oedd angen. Soniwyd am y diffyg cynrychiolwyr presennol o sefydliadau athrawon hefyd fel mater yr oedd yr awdurdod lleol angen rhoi sylw iddo ac awgrymwyd y byddai'n werth cynnal cyfarfodydd y tu allan i oriau ysgol a all helpu i wella presenoldeb.

Dywedodd Ymgynghorydd Her ar gyfer GwE ei fod yn camu i lawr fel cynrychiolydd yr awdurdod lleol a dywedodd y byddai'r awdurdod lleol angen dod o hyd i ymgynghorydd arall i ddarparu cefnogaeth broffesiynol i CYSAG yn y dyfodol. Amlygodd y gofynion statudol i CYSAG adolygu'r maes llafur y cytunwyd arno ond oherwydd y newidiadau i'r cwricwlwm presennol yn y dyfodol roedd Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol Cymru wedi awgrymu i'r fframwaith presennol gael ei gadarnhau'n

addas i'r diben yn amodol ar weithredu'r cwricwlwm newydd yn 2022. Awgrymwyd bod Cynhadledd Maes Llafur Cymeradwyedig yn cael ei gynnal yn syth cyn y cyfarfod CYSAG nesaf a gynhelir i'r diben hwn. Roedd Ymgynghorydd Her GwE hefyd yn tynnu sylw'r aelodau at eitem 8 ar y rhaglen - Cwricwlwm Cymru. Gan fod y cwricwlwm newydd yn parhau i gael ei ddatblygu, meddai, roedd camau dilyniant ar gyfer Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau wedi eu llunio i roi cymorth o ran adnabod cyrhaeddiad yn y dyniaethau a fyddai'n disodli'r ddogfennaeth bresennol. Mae'r dyddiad cau ar gyfer adborth i Lywodraeth Cymru ar y camau dilyniant newydd yn fuan ac felly awgrymodd y dylai aelodau ystyried y ddogfennaeth yn eu hamser eu hunain a chyflwyno eu sylwadau unigol yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru. Byddai hyn yn sicrhau bod CYSAG yn hyderus ei fod wedi cael y cyfle i ddarparu mewnbwn fel rhan o'r broses gyda golwg ar gynnwys y ddogfennaeth newydd fel rhan o'r maes llafur y cytunwyd arno pan adolygir yn 2022. Cytunwyd i ddosbarthu cyfeiriad e-bost Llywodraeth Cymru ar gyfer ymatebion i'r aelodau i alluogi iddynt ddarparu adborth unigol yn ymwneud â'r camau cynnydd.

Daeth y drafodaeth i ben am 10.25am.